| | |
|---|---|
| **Adroddiad At:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Ionawr 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu** |

---

**1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno ei flaenraglen waith ddrafft i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau er mwyn i aelodau ei hystyried.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen o waith yn y dyfodol, a rhoi'r diweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarperir ac yn cymeradwyo, yn diwygio neu'n gwella ei flaenraglen waith fel y mae'n ystyried yn briodol

**4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, ac mae rheolau gweithredu ar gyfer pwyllgorau craffu yn cael eu hamlinellu yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bwyllgorau craffu baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda wedi'i arwain gan aelodau.

4.3 Ers sawl blwyddyn mae Sir Ddinbych wedi mabwysiadu'r arfer o gyfyngu ar nifer yr adroddiadau sy'n cael eu hystyried gan bwyllgorau craffu mewn unrhyw un cyfarfod i uchafswm o bedwar ynghyd ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Amcan yr ymdriniaeth hon yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob testun.

4.4 Gan hynny gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei flaenraglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, fel y nodir yn atodiad 1, a'i chymeradwyo, ei diwygio neu'i gwella fel y mae'n ystyried yn briodol gan ystyried:

- materion a godir gan aelodau'r Pwyllgor

- materion y cyfeirir at y pwyllgor gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu
- perthnasedd i flaenoriaethau'r Pwyllgor/Cyngor/cymuned
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- llwyth gwaith y cyfarfod
- prydlondeb
- canlyniadau
- materion allweddol a gwybodaeth i'w cynnwys yn yr adroddiadau
- swyddogion a/neu aelodau Cabinet arweiniol y dylid eu gwahodd (ar ôl ystyried a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol neu a fyddai'n ychwanegu gwerth)
- cwestiynau i'w rhoi gerbron swyddogion/aelodau Cabinet arweiniol

4.5 Yn ychwanegol, wrth ystyried eitemau i'w cynnwys ar flaenraglen waith yn y dyfodol efallai y bydd aelodau hefyd yn ei chael hi'n ddefnyddiol ystyried y cwestiynau a ganlyn wrth bennu addasrwydd y pwnc i'w gynnwys:

- beth yw'r mater?
- pwy yw'r rhanddeiliaid?
- beth sy'n cael ei ystyried mewn man arall
- beth y mae angen i graffu ei wybod? a
- phwy allai helpu?

4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bwyllgorau craffu baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw swyddogion o'r farn bod y pwnc yn haeddu amser ar gyfer trafodaeth ar agenda busnes y Pwyllgor mae'n rhaid iddynt ofyn yn ffurfiol i'r Pwyllgor ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro diben, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y materion a awgrymir. Nid oes unrhyw ffurflenni cynnig o'r fath wedi'u derbyn i'w hystyried gan y Pwyllgor yn y cyfarfod cyfredol.

4.7 <u>Blaenraglen Waith y Cabinet</u>
Wrth benderfynu ar eu blaenraglen waith mae'n ddefnyddiol i bwyllgorau craffu ystyried y flaenraglen waith sydd wedi'i threfnu ar gyfer y Cabinet. At y diben hwn mae copi o flaenraglen waith y Cabinet ynghlwm yn Atodiad 2.

4.8 <u>Cynnydd ar Benderfyniadau'r Pwyllgor</u>
Mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori aelodau ar gynnydd wrth eu gweithredu ynghlwm yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

<u>Gweithredu Trefniadau Ailgylchu Newydd</u>

4.9 Mae nifer o bryderon wedi'u codi'n ddiweddar gan aelodau etholedig a phreswylwyr o ran gweithredu trefniadau ailgylchu newydd yn ne Sir Ddinbych, ac yn benodol y problemau a gododd yn ystod cyflwyno'r trefniadau newydd. Mewn ymateb i'r pryderon hyn mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cytuno i'r Pwyllgor ystyried adroddiad ar y mater yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Serch hynny, mae hyn yn golygu bod gan y Pwyllgor bum eitem wedi'u trefnu ar hyn o bryd ar ei raglen waith ar gyfer ei gyfarfod ym mis Chwefror. O ystyried y wybodaeth ym mharagraff 4.3 uchod a'r nifer uchaf o adroddiadau i'w hystyried mewn unrhyw un cyfarfod, gofynnir i Aelodau benderfynu a ydynt yn dymuno aildrefnu unrhyw un o'r adroddiadau eraill sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, neu os ydynt yn dymuno ymdrin â hwy trwy unrhyw lwybr arall.

## 5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

5.1 O dan drefniadau craffu'r Cyngor mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn cyflawni rôl pwyllgor cydlynu. Wrth weithredu'r rôl hon gall geisio pwyllgorau craffu unigol i gymryd perchnogaeth ar destunau penodol.

5.2 Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2012 ystyriodd y Grŵp gais gan swyddogion ynglŷn â chraffu effeithlonrwydd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwrth-faeddu'r Cyngor. Cytunodd y Grŵp y byddai'n briodol i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu gael eu harchwilio ar ôl eu gweithredu i sicrhau eu bod ar y trywydd cywir i weithredu ar eu hamcanion. Bydd craffu cynnar yn ystod gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn galluogi i unrhyw ddiffygion neu wendidau gael eu hadnabod a datblygu mesurau i fynd i'r afael â hwy. O ganlyniad i hynny fe wnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu argymell y dylai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau archwilio'r pwnc a threfnu eitem yn ei flaenraglen waith ar gyfer mis Ebrill 2013. Gofynnir i'r Pwyllgor gadarnhau'r trefniadau hyn.

## 6. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd craffu effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflwyno ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedol a dymuniadau preswylwyr. Bydd datblygiad parhaus ac adolygiad o raglen waith wedi'i chydlynu yn cynorthwyo'r Cyngor wrth fonitro ac adolygu materion polisi.

## 7. Faint y bydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Efallai y bydd angen i wasanaethau glustnodi amser swyddogion i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda gweithgareddau a adnabuwyd yn y flaenraglen waith, a chydag unrhyw gamau a allai ddeillio o ganlyniad i ystyried yr eitemau hynny.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

Nid oes unrhyw rai yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn.  Serch hynny, mae'r adroddiad ei hun ac ystyried y flaenraglen waith yn cynrychioli proses ymgynghori gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen o waith yn y dyfodol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w gostwng?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u hadnabod o ran ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor.  Serch hynny, trwy adolygu ei flaenraglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd risg yn cael eu hystyried a'u harchwilio wrth iddyn nhw gael eu hadnabod, a bod argymhellion yn cael eu gwneud gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

**10. Y Pŵer i Wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen o'u gwaith yn y dyfodol.

**Swyddog Cyswllt:** Cydlynydd Craffu
Rhif Ffôn: (01824) 712554
E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk